Agenda – Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

Fideo Gynadledda via Zoom

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Medi 2020

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Alun Davidson

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar senedd.tv.

Cofrestru

(13.00–13.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

(13.30–14.30) (Tudalennau 1 – 94)

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

Chris Warner – Llywodraeth Cymru

Ed Sherriff – Llywodraeth Cymru

3 Papurau i'w nodi

(14.30–14.35)

3.1 Papur i'w nodi 1: Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch Cynllun Masnachu Allyriadau - 15 Gorffennaf 2020

(Tudalennau 95 - 97)

3.2 Papur i'w nodi 2: Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Cadeirydd ynghylch lansio'r Papur Gwyn ar Farchnad Fewnol y DU a'r ymgynghoriad cysylltiedig - 16 Gorffennaf 2020.

(Tudalennau 98 - 99)

3.3 Papur i'w nodi 3: Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol at y Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Fforwm y Gweinidogion ar Fasnach - 19 Gorffennaf 2020

(Tudalen 100)

3.4 Papur i'w nodi 4: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Cadeirydd ynghylch rhaglenni ariannu'r UE yng Nghymru a dyfodol cyllid ar gyfer buddsoddiadau rhanbarthol yng Nghymru - 20 Gorffennaf 2020.

(Tudalennau 101 - 106)

3.5 Papur i'w nodi 5: Gohebiaeth gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Cadeirydd ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd ers y cyfarfod ar 30 Mehefin 2020 - 20 Gorffennaf 2020

(Tudalennau 107 - 108)

3.6 Papur i'w nodi 6: Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ynghylch lansio'r Papur Gwyn ar farchnad fewnol y DU a'r ymgynghoriad cysylltiedig - 27 Gorffennaf 2020.

(Tudalennau 109 - 110)

3.7 Papur i'w nodi 7: Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at yr Ysgrifennydd Busnes ac Ysgrifennydd Cymru ynghylch y Papur Gwyn ar farchnad fewnol y DU a'r ymgynghoriad cysylltiedig - 7 Awst 2020

(Tudalennau 111 - 115)

3.8 Papur i'w nodi 8: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfianwder a'r Cyfansoddiad ynghylch Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar farchnad fewnol y DU - 14 Awst 2020

(Tudalennau 116 - 125)

3.9 Papur i'w nodi 9: Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol at y Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfianwder a'r Cyfansoddiad ynghylch Fforwm y Gweinidogion ar Fasnach - 14 Awst 2020

(Tudalennau 126 - 127)

3.10 Papur i'w nodi 10: Gohebiaeth gan y Prif Weinidog at y Cadeirydd ynghylch y Cytundeb rhwng y DU a Gwlad Pwyl - 24 Awst 2020

(Tudalennau 128 - 129)

3.11 Papur i'w nodi 11: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Cadeirydd ynghylch hawliau dinasyddion a fframweithiau cyffredin - 25 Awst 2020

(Tudalennau 130 - 135)

3.12 Papur i'w nodi 12: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfianwder a'r Cyfansoddiad ynghylch cyfarfod Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) - 27 Awst 2020

(Tudalen 136)

3.13 Papur i'w nodi 13: Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol at y Cadeirydd ynghylch y trefniadau gwahanu rhwng y DU, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy - 28 Awst 2020

(Tudalennau 137 - 138)

3.14 Papur i'w nodi 14: Marchnad Sengl yr UE - papur gan Dr Kathryn Wright - 28 Awst 2020

(Tudalennau 139 - 158)

3.15 Papur i'w nodi 15: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Cadeirydd ynghylch y Cytundeb Rhyng-sefydliadol - Cyfarfodydd Gweinidogol ar yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol - 4 Medi 2020

(Tudalennau 159 - 160)

4 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.35)

5 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd - trafod y dystiolaeth

(14.35-14.50)

6 Trafod cytundebau rhyngwladol

(14.50-14.55) (Tudalennau 161 - 163)

7 Blaenraglen waith

(14.55-15.10) (Tudalennau 164 - 170)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Lesley Griffiths AS/MS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-2248-20

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig

15 Gorffennaf 2020

Annwyl Mike

Yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 1 Mehefin, ymrwymais i ddiweddaru pwyllgorau'r Senedd ar y cynnydd wnaed ar ddyfodol prisio carbon yn y DU ar ôl ymadael â'r UE a'r safbwynt polisi ar y cyd a drafodwyd rhwng y Llywodraeth a phedair cenedl y DU. Byddaf yn esbonio'r broses o ddatblygu'r polisi, yn darparu trosolwg o'i ddyluniad gan gynnwys y ddeddfwriaeth a'r strwythurau llywodraethu a fydd yn sail iddo, ac yn awgrymu sut y gall fy swyddogion a minnau helpu pwyllgorau'r Senedd i graffu ar y polisi hwn.

Mae diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys lleihau allyriadau a newid hinsawdd, yn faterion datganoledig. O ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, roedd angen sicrhau ein bod yn parhau i gymell datgarboneiddio diwydiannol. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Gweinidogion cyfatebol eraill ar draws y DU i ddatblygu Fframwaith Cyffredin i ddisodli System Masnachu Allyriadau (ETS) yr UE. Nid yw Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 yn darparu pwerau digonol i sefydlu system ddeddfwriaethol newydd. Felly, penderfynodd y pedair Llywodraeth i gyd-sefydlu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU) gan ddefnyddio'r pwerau presennol o dan Ran 3 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.

Roedd ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y cyd yn 2019 wedi ceisio barn ar gynigion i gymhwyso ETS y DU ar ôl y cyfnod pontio, gyda'r cyfnod deng mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Ionawr 2021. Bydd yn adlewyrchu dyluniad ETS yr UE, i sicrhau bod busnesau yn gallu trosglwyddo'n ddidrafferth ac yn hwyluso cysylltiad ag ETS yr UE cyn gynted â daethpwyd i gytundeb yn y trafodaethau rhwng y DU a'r UE. Roedd ymateb rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad o blaid ETS y DU, yn enwedig un sy'n gysylltiedig ag ETS yr UE. Roedd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn cefnogi sefydlu cynllun masnachu cysylltiedig hefyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Ers yr ymgynghoriad, mae'r pedair Llywodraeth wedi parhau i ddatblygu'r agweddau technegol ar ddyluniad polisi ETS y DU a ddisgrifir yn yr Ymateb Llywodraethol ar y Cyd a gyhoeddwyd ar 1 Mehefin. Mae dyluniad y polisi yn taro cydbwysedd rhwng yr heriau o ran sicrhau integredd amgylcheddol a rheoli materion o ran cystadleurwydd busnesau. Mae hyn yn hanfodol bwysig yng Nghymru gan fod y sector masnachu yn gyfrifol am ryw 46% o'n hallyriadau ac yn cynnwys rhai o'n cyflogwyr mwyaf. Mae'r ddogfen i'w gweld yma: https://gov.wales/future-uk-carbon-pricing.

Bydd ETS y DU yn cyd-fynd yn agos ag ETS yr UE ar y cychwyn. Mae'n berthnasol i'r un sectorau masnachu ac mae'n gosod yr un rhwymedigaethau ar gyfranwyr i fonitro allyriadau ac adrodd arnynt, ac ildio nifer cyfwerth o lwfansau. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer dyraniad am ddim sy'n dilyn dull a meini prawf cymhwystra'r UE, a sicrhau bod rôl cydymffurfio a gorfodi rheoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau.

Mae gwahaniaethau, fodd bynnag, rhwng ETS y DU a system yr UE. Bydd cap cychwynnol ETS yr UE yn cael ei osod 5% yn llai na chyfran tybiannol y DU o gap ETS yr UE, a bydd yn cael ei adolygu ar ôl cael cyngor pellach ar y llwybr i 2050, i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'n nod cyffredin o gyflawni allyriadau sero net ar draws y DU erbyn 2050. Bydd hefyd fecanweithiau i reoli prisiau hynod o uchel ac isel, gan gynnwys pris cadw arwerthiant wedi'i osod yn £15 y lwfans.

Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020, sy'n sefydlu ETS y DU ac yn cynnwys darpariaethau ar gyfer elfennau allweddol o'r polisi, yn cael ei osod gerbron y Senedd heddiw a bydd y pedair deddfwrfa yn craffu arno o fewn yr un cyfnod amser. Rhaid i'r Gorchymyn cael ei gymeradwyo gan y Senedd, a bydd dadl yn cael ei threfnu ar gyfer wythnos gyntaf mis Tachwedd. Bydd Gorchymyn pellach a ddefnyddia'r weithdrefn negyddol, sy'n mynd i'r afael â rhai o fanylion technegol y cynllun, yn cael ei ddwyn ymlaen tuag at ddiwedd 2020.

Yn ddiweddar, gwnaeth y Senedd gydsynio i bwerau sy'n galluogi arwerthu lwfansau allyriadau sydd wedi'u cynnwys ym Mil Cyllid Llywodraeth y DU[1]. Bydd Llywodraeth y DU yn dwyn ymlaen is-ddeddfwriaeth maes o law i sefydlu'r trefniadau manwl ar gyfer arwerthu.

Mae ETS y DU yn rhan o Raglen y Fframwaith Cyffredin a oruchwylir y Cyd-bwyllgor Gweinidogol ar Drafodaethau'r UE (JMC(EN)) ac fe'i datblygwyd gan ddefnyddio'r egwyddorion a nododd ym mis Hydref 2017. Bydd Cytundeb Amlinellol yn nodi'r sail resymegol dros sefydlu'r fframwaith a'r trefniadau gwneud penderfyniadau a llywodraethu. Bydd concordat rhwng Gweinidogion y pedair llywodraeth yn mynd gydag ef. Byddaf yn rhannu'r dogfennau hyn gyda'r Pwyllgor pan fyddant yn barod a chyn y cânt eu cyflwyno i'r JMC(EN) er mwyn iddo graffu arnynt.

Rwy'n awyddus i gefnogi'r gwaith craffu ar y ddeddfwriaeth a'r fframwaith ehangach, a byddaf yn barod iawn i ddarparu tystiolaeth. Mae fy swyddogion hefyd ar gael i ddarparu trosolwg technegol o'r fframwaith a manylion y ddeddfwriaeth pe bai hynny'n ddefnyddiol ichi.

[1] Pan gyflwynwyd y Bil yng Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Mawrth 2020, y ddarpariaeth berthnasol oedd cymal 93 (Ffi ar gyfer dyrannu lwfansau o dan gynllun masnachu lleihau allyriadau). Diwygiwyd y Bil gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, a daeth cymal 93 yn gymal 94. Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 2 Gorffennaf 2020, a daeth cymal 94 yn gymal 96. Er bod rhifau'r cymal wedi newid, nid oes unrhyw ddiwygiadau wedi'u gwneud i'w sylwedd ers iddo gael ei gyflwyno. Mae cofnod o'r Bil i'w weld yma: https://services.parliament.uk/Bills/2019-21/finance/documents.html.

Rwy'n ymwybodol y bydd gan bwyllgorau eraill ddiddordeb yn y fframwaith hwn. O ganlyniad, awgrymaf fod fy swyddogion yn cysylltu â chi i wneud y trefniadau ar gyfer sicrhau proses graffu effeithlon.

Mae ETS y DU yn bolisi technegol gymhleth, ond mae ganddo oblygiadau pwysig i'n polisi hinsawdd a'n sylfaen ddiwydiannol. Edrychaf ymlaen at drafod â chi yn ystod y gwaith craffu ar ETS y DU.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Busnes.

Cofion

Lesley Griffiths AS/MS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Department for Business, Energy & Industrial Strategy

The Rt Hon Alok Sharma MP
Secretary of State
Department for Business, Energy & Industrial Strategy
1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

T +44 (0) 20 7215 5000
E enquiries@beis.gov.uk
W www.gov.uk

Russell George MS
Chair
Economy, Infrastructure and Skills Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff
CF99 1SN

16 July 2020

Dear Russell,

Launch of the UK internal market White Paper and consultation

The White Paper on the *UK Internal Market* was published today (https://www.gov.uk/government/publications/uk-internal-market).

Today, the UK Internal Market supports jobs and livelihoods across our country. 75% of Welsh exports of final goods and services are consumed in the rest of the UK, three times as much as Wales exports internationally. In some parts of Wales, a quarter of workers commute in from England on a daily basis.

The Internal Market is just as vital for the rest of the UK. Northern Ireland sells more to the rest of the UK than to all EU member states combined. Scotland sells more to the rest of the UK than to the rest of the world put together.

Following the end of the Transition Period, the way we regulate labour, capital, goods and services in the UK will no longer be decided by the EU. Hundreds of powers previously exercised at EU level will flow directly to the devolved administrations in Edinburgh, Cardiff, and Belfast. The UK will be able to regulate our trade in goods and services in a tailored manner, specifically designed to benefit our businesses, workers and consumers while maintaining our high regulatory standards.

At this historic time, it is important that we provide businesses with certainty about how seamless internal trade will be upheld in the future.

Under the plans in this White Paper, the UK will continue to operate as a coherent internal market. A Market Access Commitment will guarantee UK companies can trade unhindered in every part of the United Kingdom, whilst maintaining our commitment to high regulatory standards.

It is the Government's firm belief that without this legislation, trade from one part of the Union to another could be disrupted through regulatory differences. This could put jobs at risk across the country and leave Welsh businesses potentially unable to sell their goods and services in other home nations.

The proposals in the White Paper will protect the UK internal market for the long-term, including:

- The principle of **mutual recognition –** goods and services from one part of the UK will be recognised across the country to ensure the devolved administrations can set their own rules and standards in areas of their competence, but still welcome the trade of businesses based anywhere in the UK.

- The principle of **non-discrimination –** so that there is equal opportunity for companies trading in the UK regardless of where in the UK the business is based.

These principles will prevent any part of the UK from blocking products or services from another part while protecting devolved powers, such as introducing plastic bag minimum pricing or introducing smoking bans.

The consultation launched at the same time as the White Paper will enable businesses, academics, consumer groups and trade unions to input their views of the proposals and consultation questions.

We have welcomed the engagement we have already had with Welsh Government officials and would like to build on this to make sure we fully discuss all the issues raised in the White Paper and consultation. We would value you and your Committee's input in this process.

If you have additional questions or would like further information, our ministerial colleagues and officials would welcome the opportunity to assist you.

Yours sincerely,

THE RT HON ALOK SHARMA MP
Secretary of State for Business, Energy & Industrial Strategy



THE RT HON SIMON HART MP
Secretary of State for Wales

Elluned Morgan AS/MS
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru

Mr Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCLA@cynulliad.cymru
cc: Aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Gorffennaf 2020

Annwyl Gadeiryddion,

Rwy'n ysgrifennu o dan y cytundeb ar gysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod ichi bod cyfarfod o'r Fforwm Masnach Gweinidogol yn cael ei gynnal ddydd Mawrth, 21 Gorffennaf.

Yn ystod y cyfarfod, bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am y negodiadau ar gytundebau masnach rydd a'r Rhaglen Parhad yn cael eu trafod, a bydd diweddariad hefyd ar Fil Masnach y DU.

Byddaf yn ailbwysleisio safbwynt Llywodraeth Cymru o ran bod yn rhaid ystyried safbwyntiau'r Gweinyddiaethau Datganoledig wrth ddatblygu safbwyntiau negodi.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

M. E. Morgan

Eluned Morgan AS/MS
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Jeremy Miles AS/MS
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Allanol a
Deddfwriaeth Ychwanegol

SeneddEAAL@senedd.wales

20 Gorffennaf 2020

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mehefin yn gofyn am ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y rhaglenni arian UE cyfredol yng Nghymru a dyfodol cyllid buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru.

Rwyf wedi cynnwys y wybodaeth bellach y gofynnoch amdani isod.

Rhaglenni arian UE cyfredol (2014-2020)
Mae WEFO wedi ymrwymo dyraniad cyfan Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2014-2020, gan fuddsoddi dros £2 biliwn, gan yrru cyfanswm gwariant o dros £3.9 biliwn (ffigurau diwedd Mehefin) sydd hefyd yn cynnwys addasu cronfeydd strwythurol yr UE i gefnogi ymateb Cymru i bandemig COVID-19.

Mae Menter Buddsoddi Ymateb Coronafeirws yr Undeb Ewropeaidd (CRII) wedi darparu pecyn o hyblygrwydd i ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) mewn ymateb i effeithiau economaidd Covid-19. Mae mesurau i amrywio cyfraddau ymyrryd Cronfeydd ESI, lefelau gwariant mewn Echelau Blaenoriaeth a hyblygrwydd arall, yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i fynd i'r afael â'r gwahanol amgylchiadau a brofir gan y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yr UE.

Mae'r hyblygrwydd newydd yn berthnasol i beth sy'n gymwys am gymorth yr UE, i drosglwyddiadau rhwng cronfeydd, i gyfraddau ymyrryd a ganiateir ac i amseriad y broses gymeradwyo. Ni chafwyd unrhyw newid sylweddol i'r drefn lywodraethu ariannol, felly mae'r gofynion arferol ar gyfer amcanion clir, allbynnau mesuradwy a llwybrau archwilio yn berthnasol o hyd.

Mae WEFO'n gwneud y gorau o'r cyfleoedd a ddarparwyd gan CRII, gan glustnodi hyd at £245 miliwn o gronfeydd Ewropeaidd i gefnogi ail don y Gronfa Cadernid Economaidd, yn cynnwys benthyciadau buddsoddi a wnaed gan Fanc Datblygu Cymru, a chostau gwasanaeth iechyd sy'n gysylltiedig â Covid-19, yn arbennig i gefnogi recriwtio staff meddygol ychwanegol a phrynu cyfarpar diogelu personol.

Mae hefyd yn cefnogi adleoli staff prosiect dros dro i waith Covid-19 lle bo'n briodol a galwad Covid-19 benodol am gynigion o dan Gynllun Cynhwysiant Gweithredol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

O ran rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), mae'r rhan fwyaf o brosiectau'n mynd rhagddynt yn dda er gwaethaf y tarfu yn sgil pandemig COVID-19 a mesurau cyfyngiadau symud o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, mae yna rai pryderon am nifer o brosiectau seilwaith strategol na fydd yn gallu cwblhau eu gwaith neu eu gwariant cyn diwedd 2023 o bosibl. Mae WEFO yn ymgynghori ag arweinwyr prosiectau penodol er mwyn gweithio tuag at amserlenni gwell a modelau cyflawni eraill posibl.

Mewn cyferbyniad i'r ERDF, mae cyfyngiadau symud cyfredol Covid-19 wedi cael effaith ar gyflawniad y rhan fwyaf o weithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) gan fod llawer o weithgareddau sy'n cefnogi cyfranogwyr wedi'u cwtogi, a llawer llai o gyfranogwyr newydd a chyflogwyr yn cael eu recriwtio i brosiectau. Mae rhai prosiectau'n parhau i ddarparu dysgu o bell neu gymorth arall i gyfranogwyr o bell, pan fo natur y prosiect yn caniatáu hyn. Mae WEFO yn caniatáu i brosiectau a ariennir gan arian yr UE ac sy'n darparu hyfforddiant i fusnesau, lacio rheolau ar gyd-fuddsoddi, fel ffordd o helpu cwmnïau i gael gafael ar hyfforddiant gan y cynlluniau hyn a ariennir gan yr UE yn ystod y cyfnod adfer yn sgil Covid-19.

Mae ymrwymiad y rhaglen ar gyfer Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru yn €75.2m – 95% o ddyraniad ERDF. Mae WEFO a'i bartneriaid cyflawni yn Iwerddon yn trafod y dulliau mwyaf effeithiol o ddefnyddio'r cyllid sydd ar ôl. Rhoddir ystyriaeth i fesurau adfer Covid-19 posibl fel rhan o'r ymarfer hwn yn cynnwys unrhyw weithgareddau newydd a allai fod yn fwy perthnasol i sefyllfa ôl-argyfwng.

O ran y Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP), yn Chwefror 2020, roedd lefel ymrwymiad y prosiect yn £689.5 miliwn, sef 82.6% o ymrwymiad mewn cronfeydd (cyfanswm gwerth y rhaglen yw £834,816,280). Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn asesu effaith Covid-19 ar brosiectau RDP unigol, gan fod nifer o weithgareddau a drefnwyd ar gyfer Mawrth a Gorffennaf wedi'u canslo neu eu gohirio. Mae ymarfer ailgynllunio'n cael ei gwblhau i ymrwymo'r RDP yn llawn, gan fanteisio ar y cyfle i barhau i ymrwymo i brosiectau ar ôl diwedd y flwyddyn, cyhyd â bod y prosiectau hynny'n cael eu cyflawni erbyn Mehefin 2023.

Gweler **Atodiad A** am ddadansoddiad pellach ar gyfer cyfnod rhaglen 2014-20.

Er gwaethaf y pandemig, mae WEFO wedi parhau i gynnal yr holl swyddogaethau allweddol gan weithio o bell, gan ailddyrannu adnoddau i sicrhau bod y brif flaenoriaeth o brosesu hawliadau a gwneud taliadau i fuddiolwyr yn parhau i gael eu darparu'n effeithiol. Mae hyn hefyd wedi sicrhau bod gwaith rheoli arian parod WEFO ei hun, yn cynnwys cael arian parod gan y CE, wedi'i gynnal gydol y pandemig.

Yn sgil cyfyngiadau symud COVID-19 ledled Cymru a Lloegr, mae rhai gwiriadau gwariant yn y fan a'r lle wedi'u gohirio, gan achosi ôl-groniad anochel. Fodd bynnag, gan mai mater i'r DU gyfan yw hwn, mae Awdurdodau Rheoli'r DU yn ysgrifennu llythyr ar y cyd i'r CE i ystyried ffyrdd o reoli'r mater hwn.

Banc Buddsoddi Ewrop
Mae Banc Buddsoddi Ewrop (EIB) wedi gwneud cyfraniad allweddol yn cefnogi buddsoddiad hirdymor i wella tai cymdeithasol, addysg, seilwaith ynni, trafnidiaeth a seilwaith dŵr ledled Cymru.

Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer ail Bont Hafren a ffordd ddeuol yr A55 o Gaer i Gaergybi, yn ogystal â ffyrdd newydd yn Ne a Gorllewin Morgannwg, Dyfed a Gwent. Mae buddsoddiadau allweddol gan Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Norgine yn Hengoed a chan Dŵr Cymru wedi derbyn cefnogaeth, yn cynnwys yn Ysgol Gynradd Stebonheath yn Llanelli lle mae prosiect Rainscape yn helpu i leihau gorlif carthffosiaeth i Fôr Hafren.

Mae benthyca diweddar gan y Banc wedi cefnogi buddsoddiad addysg yng Nghymru, yn cynnwys cefnogi campws newydd Bae Prifysgol Abertawe a lleihau costau gwresogi ym Mhrifysgol Bangor.

O ran unrhyw effaith ar brosiectau a ariennir yn sgil Brexit, fe wnaeth Grŵp EIB ymrwymiad cyhoeddus ar 31 Ionawr i anrhydeddu'r cyllid sydd ganddo yn y DU ar hyn o bryd. Bydd benthyciadau'n parhau i gael eu rheoli gan eu contractau cyllid perthnasol.

Mae bod yn bartner tanysgrifiol i EIB Cymru wedi dod â manteision ychwanegol, gan gynnig mynediad at arbenigedd a'r arferion gorau masnachol sylweddol. Fe wnaeth prosiect Metro De Cymru elwa, er enghraifft, ar arbenigedd masnachol EIB wrth lywio'r broses gaffael.

Felly, yn ein Papur Gwyn, *Diogelu Dyfodol Cymru*, dadleuwyd y dylai'r DU barhau i fod yn bartner tanysgrifio gan ei fod yn dod â manteision uniongyrchol i'n heconomi yn ogystal â gwella capasiti economaidd mewn mannau eraill, gan helpu'r amgylchedd masnachu byd-eang, yr ydym yn ei gefnogi.

Yn 2018, darparwyd tystiolaeth ysgrifenedig gennym i Ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn dilyn Brexit. Ysgrifennwyd hefyd at Weinidogion Trysorlys y DU, yn nodi pryderon am y diffyg cynnydd o ran datblygu opsiynau polisi ar gyfer ein perthynas â'r EIB.

Yn Chwefror 2019, mabwysiadodd Tŷ'r Arglwyddi adroddiad a nododd fod seilwaith y DU wedi derbyn dros €118 biliwn mewn benthyciadau gan yr EIB. Roedd yn nodi'r dirywiad nodedig sydd wedi bod mewn cyllid gan yr EIB ers y refferendwm a thanio Erthygl 50, a'r ffaith, er ein bod ni yn colli mynediad i'r EIB ar ôl Brexit, nad yw'r Llywodraeth Geidwadol wedi dweud fawr ddim am unrhyw berthynas â'r EIB neu ddewisiadau domestig posibl eraill yn y dyfodol.

Fe fyddem ni wedi dymuno gweld y DU yn parhau i fod yn bartner tanysgrifio yn y Banc. Fodd bynnag, gan na ddigwyddodd hynny, rydym yn gofyn am gael mandad cyn gynted â phosibl i sicrhau bod y DU yn dal i allu derbyn benthyciadau gan yr EIB.

Dyfodol buddsoddiad rhanbarthol yng Nghymru
Daeth ein hymgynghoriad, 'Fframwaith ar gyfer dyfodol buddsoddiad rhanbarthol yng Nghymru' i ben ar 10 Mehefin, ar ôl para am ychydig dros 14 wythnos. I gefnogi hyn, cynhaliwyd pedwar gweminar ymgysylltu rhanbarthol yn y gogledd, canolbarth, de-orllewin a de-ddwyrain yn ystod mis Mai, a ddenodd dros 430 o fynychwyr. Fe wnaethom ni hefyd gymryd rhan mewn gweminarau ar-lein a drefnwyd gan randdeiliaid allweddol eraill yn cynnwys Addysg Bellach, Addysg Uwch, Busnes a'r Trydydd Sector.

Fe wnaethom ni hefyd ymgysylltu â dinasyddion, gan ddarparu arolwg Dinasyddion byr a hyrwyddwyd gan y cyfryngau cymdeithasol a ffilm esboniadol fer. Cwblhawyd arolwg pobl ifanc, gyda chymorth Plant yng Nghymru.

Yn sgil ein gwaith ymgysylltu derbyniwyd 134 o ymatebion gan randdeiliaid ac unigolion i gwestiynau'r prif ymgynghoriad, 285 o ymatebion i'r arolwg dinasyddion, a 42 o ymatebion i'r arolwg pobl ifanc. Mae'r holl adborth a dderbyniwyd yn cael ei ddadansoddi'n annibynnol gan gwmni ymchwil, ond mae dadansoddiad cychwynnol eisoes yn dangos bod yna gonsensws cyffredinol ar ein cynigion, gan gydnabod effaith COVID-19.

Mae ein prosiect gyda'r OECD, a ddechreuodd ym mis Ionawr 2019, i ddysgu o arferion gorau rhyngwladol, hefyd yn mynd yn ei flaen yn dda ac wedi cynnwys dadansoddiad ac ymgysylltu sylweddol â rhanddeiliaid er mwyn llunio adroddiad terfynol.

Bydd yr OECD yn paratoi ei grynodeb gweithredol dros yr haf, tra bod ei waith sy'n weddill yn cynnwys datblygu pecyn cymorth hunanasesu hyblyg i helpu cyrff rhanbarthol i asesu eu buddsoddiad cyhoeddus a'u capasiti i weithredu polisi, a darparu dirnadaeth o'r meysydd sydd angen eu gwella, fel y gallwn ymrwymo i gael cymysgedd o ddulliau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer darparu buddsoddiad rhanbarthol yn y dyfodol.

Bwriadwn gyhoeddi'r ddau adroddiad ym mis Medi, ac edrychaf ymlaen at rannu a thrafod y canfyddiadau gyda'ch Pwyllgor maes o law. Yn y cyfamser, bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried y trosolwg cychwynnol o ganfyddiadau'r ymgynghoriad ac adroddiad terfynol yr OECD yr a byddaf yn cytuno ar y camau nesaf i'w hystyried gan swyddogion gyda phartneriaid dros fisoedd yr haf a'r hydref fel ein bod ni'n dal ar y llwybr iawn i gyflwyno trefniadau buddsoddi newydd o ddechrau 2021.

O ran eich ymholiadau ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi nodi na fydd Cymru'n derbyn llai o gyllid na lefelau cyfredol cyllid yr UE (Maniffesto'r Blaid Geidwadol 2019; Cyllideb Mawrth 2020), ni chafwyd cadarnhad eto sut bydd y Gronfa yn dod i Lywodraeth Cymru. Yma, mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau y dylai Llywodraeth y DU ddyrannu dyraniad penodol, clir a thryloyw i Lywodraeth Cymru'n uniongyrchol, wedi'i ddisgrifio fel ein cyfran o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac i hyn gael ei ddatganoli a'i ddyrannu'n briodol yn unol â'r blaenoriaethau i sicrhau twf cynhwysol fel y cytunwyd arno mewn ymgynghoriad â'n partneriaid.

Rydym hefyd am weld y cyllid disodli hwn yn parhau i gael ei ddarparu i Gymru ar sail angen i adlewyrchu'r heriau strwythurol y mae Cymru'n dal i'w hwynebu ynghyd â chyllidebau aml-flwyddyn y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan fod ein holl sgyrsiau â'n partneriaid a'n buddiolwyr yn nodi bod hyn yn hanfodol ar gyfer cynllunio hirdymor. Mae ein safbwyntiau wedi'u cyhoeddi fel tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Materion Cymreig Llywodraeth y DU ar Gymru a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a gynhaliwyd rhwng 11 Chwefror a 25 Mai.

Cefais gyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 10 Chwefror ac ers hynny rydym wedi bod yn adeiladu ar y cyfarfod hwnnw i geisio cytundeb ar rai egwyddorion allweddol ynglŷn â sut gallai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gydweithio'n effeithiol yn y dyfodol agos.

Mewn trafodaethau diweddar â Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU roedd swyddogion yn dweud fod gwaith ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cyflymu gan fod trafodaethau ynghylch y Gronfa newydd gael eu cynnal gyda Gweinidogion Cabinet y DU. Fodd bynnag, deallwn fod nifer o ffactorau eraill yn effeithio ar y gwaith hwn yn cynnwys y Papur Gwyn ar ddatganoli yn Lloegr a chynlluniau ehangach ar gyfer adferiad economaidd ar ôl COVID. Nid ydym yn disgwyl cyhoeddiad am y Gronfa Ffyniant Gyffredin hyd nes y cyhoeddir yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn yr hydref, sy'n golygu ei bod hi'n annhebygol y bydd cyllid newydd yn cael ei ddarparu cyn blwyddyn ariannol 2021/22 ac y bydd pontio didrafferth yn digwydd rhwng rhaglenni buddsoddi er budd busnesau, cymunedau a phobl ledled Cymru.

Wrth symud ymlaen, rydym yn dal i barhau'n awyddus i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU fel y gallwn wneud cyfraniadau i'r ddadl ar fodel arfaethedig y dyfodol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Bydd swyddogion hefyd yn parhau i weithio gyda Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru, dan gadeiryddiaeth Huw Irranca-Davies AS, ac is-grwpiau technegol dros y misoedd nesaf i helpu i ddatblygu model gweithredu hirdymor yn seiliedig ar yr argymhellion a'r sylwadau a dderbyniwyd gan yr OECD a'n hymgynghoriad, ynghyd â threfniadau pontio ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol sydd angen eu hystyried yng ngoleuni'r adferiad ar ôl COVID.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn rhoi diweddariad defnyddiol ar sefyllfa ddiweddaraf y rhaglenni cyfredol a dyfodol buddsoddiad rhanbarthol yng Nghymru. Os hoffech esboniad pellach ar y materion a drafodir yn y llythyr hwn rhowch wybod i mi. Byddwn hefyd yn hapus i roi diweddariad i aelodau ar ddatblygiadau, yn cynnwys adroddiadau'r OECD ac adroddiadau ymgynghori, yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod tymor yr hydref.

Yn gywir,

Jeremy Miles AS/MS
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

cc. Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru

Dyrannu cyllid yn ôl rhanbarth a math

Nid ydym yn casglu data ariannol yn ôl rhanbarth neu ardal awdurdod lleol ar yfer y cronfeydd strwythurol a'r rhaglenni datblygu gwledig. Mae'r rhan fwyaf o weithrediadau'r gronfa strwythurol yn sicrhau manteision i fwy nag un ardal awdurdod lleol, yn cynnwys llawer sy'n cyflawni ar draws ardal y rhaglen yn gyffredinol, fel y mae llawer o brosiectau a ariennir fel rhan o'r rhaglen RDP, fel Cyswllt Ffermio. Nid yw'n bosibl nodi faint yn union o gyllid mae ardal awdurdod lleol benodol wedi'i 'dderbyn' oherwydd cwmpas cenedlaethol/rhanbarthol cymaint o'r prosiectau a'r rhaglenni hyn.

Rydym yn casglu data ariannol ar gyfer prif fuddiolwr gweithrediadau ac mae'r tabl isod yn crynhoi'r symiau a ddyrannwyd i awdurdodau lleol, mewn achosion pan mai'r awdurdodau lleol yw prif fuddiolwr y gweithrediadau hynny drwy'r Cronfeydd Strwythurol, rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC), Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) Cymru a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF). Ar gyfer yr RDP a'r EMMFF mae swm yr arian a ddyrannwyd i Awdurdodau Lleol wedi'i gynnwys ond nid yw'n bosibl gwneud hyn ar gyfer pob Awdurdod Lleol unigol.

Tabl 1: Crynodeb o gronfeydd yr UE a ddyrannwyd i awdurdodau lleol ar gyfer cyfnod rhaglenni 2014-20

Rhaglen	**Cyfanswm**
Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF ac ERDF)	£230.8m
Ar gyfer:	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	£45.3m
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	£10.4m
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	£3.6m
Cyngor Sir Gaerfyrddin	£4.3m
Cyngor Sir Ceredigion	£0.6m
Dinas a Sir Abertawe	£4.5m
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	£7.0m
Cyngor Gwynedd	£11.8m
Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych	£24.8m
Cyngor Sir Ynys Môn	£8.8m
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	£29.2m
Cyngor Dinas Casnewydd	£13.7m
Cyngor Sir Penfro	£30.3m
Cyngor Sir Powys	£2.1m
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	£7.5m
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	£26.8m
Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop	£0.5m
Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru	£46.9m
Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd	€5.7m
Ar gyfer:	
Cyngor Sir Gaerfyrddin	€1.6m
Cyngor Sir Penfro	€4.1m

UK Government
Llywodraeth y DU

Rt Hon Simon Hart MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

T: 0292 092 4216
E: Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Ref: 031MISC20

David Rees MS
Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

20 July 2020

Dear David,

I am writing to you following my appearance before your Committee on 30 June. It was a pleasure engaging with you and your fellow Committee members on what I am sure you will agree are some very critical issues, and I hope you found it to be a productive session.

You will recall that during that session I committed to writing to you to provide further detail on some of the topics that we discussed. Firstly, you asked about preparedness. The UK Government's preparedness continues to be coordinated through the Cabinet Office, specifically Transition Task Force. Planning for the end of the transition period is well underway, and this planning is coordinated by the EU Exit Operations (XO) Cabinet Committee.

Secondly, we touched on the UK Government's Transition Period Readiness Portfolio Board which – as you will be aware – is an official-level forum. It is chaired by the Director General of the Transition Taskforce and was established on 25 February 2020. It meets fortnightly and maintains oversight of project-level performance, providing an essential route to escalate cross-cutting delivery issues that need to be resolved. From 3 June 2020, officials from the Devolved Administrations were invited to attend the Board on a monthly basis. The Board will escalate issues to the Cabinet Committees overseeing transition as appropriate, while ensuring that ministerial time is focused effectively on the most relevant issues.

Next, on the issue of up-to-date import and export guidance, there is existing guidance on GOV.UK (Imports: www.gov.uk/starting-to-import, Exports: www.gov.uk/starting-to-export) which includes content on trading with the EU from 1 January 2021. HMRC is working with key external stakeholders to understand how the guidance can best help businesses to prepare for the end of the transition period, and we will be releasing further guidance and communications on the Northern Ireland Protocol in due course.

UK Government
Llywodraeth y DU

Ref: 031MISC20

Rt Hon Simon Hart MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

T: 0292 092 4216
E: Correspondence@ukgovwales.gov.uk

The Committee also asked about the numbers required for post-Brexit customs procedures, referring to the industry calculation of 50,000 customs agents that will be required. The UK already has a well-established industry of customs intermediaries which serve British businesses trading outside the EU. The sector is made up of many different business models including specific customs brokers, freight forwarders and fast parcel operators – all of which will have specific staffing requirements. We are confident that the sector will respond to the staged introduction of customs processes and react to the increased demand from traders. We will continue to monitor industry preparations closely.

A UK Government support package of £34 million has also been designed to meet flexibly the needs of the customs intermediary sector to build capacity by covering training and IT innovation, as well as recruitment. This support has funded approximately 20,000 training courses in customs processes and procedures and the creation of a new UK Customs Academy, which has delivered 870 courses so far. Over 14,500 pieces of IT kit have also been applied for.

Furthermore, we have announced an additional £50 million of funding to support customs intermediaries to boost capacity, providing businesses with further support ahead of the new processes. In total, the UK Government has made £84 million available to support the customs intermediary sector at the end of the transition period.

Finally, I would like to draw your attention to a new public information campaign – *The UK's new start: let's get going* – launched by the UK Government on 13 July 2020. This campaign clearly sets out the actions that businesses and individuals need to take to prepare for the end of the transition period on 31 December 2020, and ensure they are ready to seize the opportunities that it will bring. This campaign will run alongside the UK's continued negotiations with the EU.

I hope that this letter is useful to you and your Committee, and I very much look forward to having further engagement with you all in the future.

Rt Hon Simon Hart MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Y Gwir Anrhydeddus Alok Sharma AS
Ysgrifennydd Gwladol
Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol,
1 Victoria Street,
Llundain, SW1H 0ET

Y Gwir Anrydeddus Simon Hart AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

27 Gorffennaf 2020

Annwyl Alok a Simon,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â lansio Papur Gwyn ac ymgynghoriad marchnad fewnol y DU.
Rwy'n ymwybodol bod y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad eisoes wedi gwneud gwaith yn y maes hwn ac yn bwriadu ymateb i'ch llythyr ar wahân.

Rwy'n teimlo ei bod yn synhwyrol i'r Pwyllgorau hynny barhau i arwain ar y darn hwn o waith. Fodd bynnag, bydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn monitro hynt y Papur Gwyn/datblygiadau sy'n ymwneud â Marchnad Fewnol y DU ac mae'n bosibl y bydd yn craffu'n ddiweddarach os bydd yn briodol gwneud hynny.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, a Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddESS@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEIS@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir,



Russell George AS

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

CC: Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

The Rt Hon Alok Sharma MP, Business Secretary

The Rt Hon Simon Hart MP, Secretary of State for Wales

7 August 2020

Dear Alok and Simon

UK internal market White Paper and consultation

Thank you for your letter of 16 July, which we considered at our meeting on 3 August.

We note that the consultation on your proposals lasts for only four weeks over the traditional parliamentary summer recess period. We also understand that the intention is for the subsequent UK Bill to complete its passage through the UK Parliament before the end of the year.

The timeframe for consideration of your proposals is wholly inadequate. Furthermore, given that the White Paper contains little detail as to how the mechanisms for managing an internal market will work in practice, there is little scope for meaningful engagement by the devolved legislatures and stakeholders before the introduction of a UK Bill.

It would have been preferable for us to have been able to question the UK Government on its proposals, with the aim of identifying what it is seeking to achieve. In particular, this would have enabled us fully to consider your argument that primary legislation is the best solution for managing internal barriers to trade at the end of the transition period. This is not least because we believe any UK Bill on the internal market should be central to the UK Government's thinking, rather than being rushed through the UK Parliament at the end of the Brexit transition process (with a range of Bills covering, for example, trade, fisheries and agriculture much further advanced).

In the absence of such an opportunity, we enclose a series of questions that we would have required responses to had we been consulted and engaged properly.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Given the lack of detailed and relevant information, we are yet to conclude whether a UK Bill of the kind proposed in the White Paper is needed.

If such a UK Bill is to be introduced, it could potentially impact the way the Senedd seeks to legislate in the future and have profound constitutional implications for the UK. At the very least it must:

- be developed from open, transparent and meaningful consultation on proposals that are at a formative stage, such consultation being based on clear and well-defined principles;
- be introduced only after there has been consultation on a draft Bill, which we deem to be a basic and fundamental requirement for all Bills of constitutional significance;
- reflect detailed discussions with the devolved governments and legislatures on how the provisions of the Bill would work in practice and their practical impact on the devolution settlements;
- adopt an approach that works for each part of the United Kingdom;
- interact logically and coherently with all statutory and non-statutory common frameworks to be agreed under the ongoing work programme;
- not seek to re-centralise power, either directly or indirectly, by allowing the UK Government and the UK Parliament to dominate policy areas that are devolved;
- include provisions agreed by all parties setting out an independent governance structure that ensures parity between all governments of the UK and a robust dispute resolution mechanism;
- provide the devolved governments and legislatures with the same freedoms to protect their citizens and economies in key areas of public health, consumer and environmental standards that they previously enjoyed under the EU's single market;
- enshrine within it the key constitutional principles of subsidiarity and proportionality, which have governed the operation of the internal market through the UK's membership of the EU, and have been faithfully guarded by all the legislatures of the UK;
- not be imposed on the devolved countries of the United Kingdom without their consent;
- not rely on the use of intergovernmental agreements with the devolved governments, as a means of bypassing scrutiny by devolved legislatures of matters that should be included within the UK Bill.

Yours sincerely,

Mick Antoniw MS
Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

cc.

David Rees MS, External Affairs and Additional Legislation Committee, Senedd Cymru
Russell George MS. Economy, Infrastructure and Skills Committee, Senedd Cymru
Bruce Crawford MSP, Finance and Constitution Committee, Scottish Parliament
Michelle Ballantyne MSP, Economy, Energy and Fair Work Committee, Scottish Parliament
Dr Caoimhe Archibald, Committee for the Economy, Northern Ireland Assembly
Colin McGrath, Committee for the Executive Office. Northern Ireland Assembly
Rt Hon Stephen Crabb MP, Welsh Affairs Committee, House of Commons
William Wragg MP, Public Administration and Constitutional Affairs Committee, House of Commons
Rt Hon the Baroness Taylor of Bolton, Constitution Committee, House of Lords

Enclosure - Questions relating to the UK Internal Market White Paper

The need for primary legislation and the principles behind it

1. Why is primary legislation needed to regulate the UK's Internal Market?

2. If primary legislation is needed, what is your current thinking as to how the legislative consent process will work? In particular, is this a "normal" situation for the purposes of the legislative consent convention?

3. What constitutional principles will underpin this primary legislation?

4. Will the constitutional principles of proportionality and subsidiarity that currently underpin the operation of the EU Single Market be enshrined in the legislation in any way?

5. What mechanisms will be put in place to ensure that the UK maintains high standards and that there will be no 'race to the bottom' within the UK?

Devolution and scope of the Internal Market

6. Can you confirm that beyond a new reservation on subsidy control, the legislation to enshrine a Market Access Commitment will make no other changes to the devolved settlements? And how will you work with the devolved governments in framing any new reservations?

7. The White Paper states that the UK's Internal Market will be overseen by the UK Parliament. What role will there be for the devolved legislatures, and how will their voice be heard?

8. In relation to the scope of the Internal Market, can you clarify:

    - The meaning of 'pre-existing differences' and whether the Internal Market legislation would apply retrospectively in any way to devolved legislation.

    - The meaning of 'Certain social policy measures with little Internal Market impacts' and the scope of legislation that will come within this exclusion.

Oversight, impact assessments and enforcement

9. Can you elaborate on the governance and institutional mechanisms that will be established to oversee the Internal Market in the UK?

10. Will there be any requirement (legal or otherwise) for the UK's governments and regulators to carry out an assessment of the effect of any new legislative proposals on the UK Internal Market prior to their introduction?

11. Will the legislation generate any new rights of redress to internal trade barriers for individuals and business and, if so, how will these be enforced?

Dispute resolution and common frameworks

12. How will dispute mechanisms ensure parity between the four governments of the UK?

13. Who will be the final arbiter of disputes between the four governments of the UK?

14. How will you ensure that the relationship between common frameworks and the legal architecture associated with the Internal Market is clearly defined and easy to navigate?

15. If increased divergence arises through a process agreed through the common frameworks programme, will this be excluded from the scope of the Market Access Commitment?

Jeremy Miles AS/MS
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

David Rees AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

14 Awst 2020

Annwyl Gadeiryddion,

Rwyf yn ysgrifennu atoch i dynnu eich sylw at ddadansoddiad Llywodraeth Cymru i Bapur Gwyn Lywodraeth y DU ar Farchnad Fewnol y DU. Rwyf wedi anfon y llythyr yma heddiw at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac atodaf ef er eich gwybodaeth.

Edrychaf ymlaen at ymgysylltu gyda'ch Pwyllgorau chi ymhellach ar y materion a drafodwyd yn y dadansoddiad.

Yn gywir,

Jeremy Miles AS/MS
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Jeremy Miles AS/MS
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd Counsel General and Minister for European Transition

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Rt. Hon Alok Sharma MP
Secretary of State for Business, Energy & Industrial Strategy
secretary.state@beis.gov.uk

14 August 2020

Dear Alok,

I am writing further to the UK Government's White Paper on the UK Internal Market, published just four weeks ago.

Prior to the Paper's publication, I wrote to you and the Chancellor of the Duchy of Lancaster (7 July) to set out our position on the UK Internal Market and the steps we believe we should take to ensure future regulatory and economic cooperation across the UK, as a result of the UK leaving the EU Single Market. Our position and thoughts on a potential approach to this issue, as set out in my letter, have not changed.

